


PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Ysgol Addysg

# Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR)

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Pam hyfforddi ym Mhrifysgol Aberystwyth? | t.3 |
| Cyrsiau TAR | t.6 |
| Cwrdd â'n partneriaid | t.16 |
| Llety | t.23 |
| Profion Llythrennedd a Rhifedd | t.24 |
| Prawf Cyfwerthedd TGAU | t.24 |
| Cwestiynau Cyffredin | t.26 |
| Ymchwil yn yr Ysgol Addysg | t.27 |
| Sut i wneud cais | t.28 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w argraffu (Hydref 2021), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso i'r Ysgol Addysg

Croeso i Addysg Gychwynnol i Athrawon ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bu'r Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ysbrydoli darpar athrawon ym Mhrydain ers i ddrysau'r adran agor i groesawu ein myfyrwyr cyntaf yn 1872.

Ers ei sefydlu, mae'r Ysgol Addysg yn parhau i baratoi ymarferwyr newydd ar gyfer gyrfa addysgu i helpu i ddatblygu, ennyn brwdfrydedd ac ysbrydoli'r cenedlaethau iau ar gyfer dyfodol llewyrchus a llwyddiannus.

Mae'r Ysgol Addysg wedi datblygu rhaglen arloesol, integredig sy'n ymateb i anghenion addysgu athrawon yn yr 21ain ganrif, ac sy'n addysgu ac yn datblygu darpar athrawon i addysgu yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Mae'r pwyslais hwn ar addysgu ar draws y cyfnodau yn unol â Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a'r cwricwlwm newydd i Gymru, yn ogystal â thwf cynyddol ysgolion pob oed.

Yn ogystal ag Addysg Gychwynnol i Athrawon, mae'r Ysgol yn cynnig Addysg Gychwynnol i Athrawon uwchradd yn y pynciau canlynol: Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys, Drama, Saesneg, Daearyddiaeth, Hanes, Mathemateg, Ieithoedd Modern, a'r Gymraeg. Gan ein bod yn sefydliad dwyieithog, gallwch astudio'r holl bynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Bydd hyn yn eich rhoi mewn sefyllfa i wneud cais am grant cymhelliant cyfrwng Cymraeg y llywodraeth.

Ar ôl cwblhau'r Addysg Gychwynnol i Athrawon yn llwyddiannus ym Mhrifysgol Aberystwyth, byddwch wedi cael digon o brofiad o ysgolion cynradd ac uwchradd, a fydd yn gwella eich cyfle o gael swydd.

I gael gwybodaeth am ein rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon cynradd ac uwchradd, ewch i'n tudalen benodol. Argymhellwn hefyd eich bod yn ymweld â ni ar un o'n Diwrnodau Agored ar y campws neu ar-lein. Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

Yn y cyfamser, os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau am ein cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon neu os hoffech siarad ag aelod o staff ynglŷn â'ch dewisiadau, mae pob croeso i chi gysylltu â ni!

Edrychaf ymlaen at eich croesawu i'r Ysgol Addysg.

**Dr Andrew Davies**
**Cyfarwyddwr, Yr Ysgol Addysg**





# Pam hyfforddi gyda ni?

Mae gan Ysgol Addysg Prifysgol Aberystwyth hanes hir a llwyddiannus o ddarparu rhaglenni gradd arloesol ar gyfer darpar athrawon.

Ers 1872, mae ein dulliau dysgu trwy ymchwilio ac ymarfer wedi datblygu cenedlaethau o athrawon sydd wedi ysbrydoli disgyblion o bob cefndir i fod yn llwyddiannus.

Mae ein Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR) yn eich galluogi i brofi hyfforddiant athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Bydd pob myfyriwr sy'n bodloni ein gofynion mynediad ac yn cofrestru ar y cwrs yn cael cynnig Llety am ddim yn y Brifysgol ar gyfer yr 8 wythnos y disgwylir i'r myfyrwyr fod ar y campws. Mae hyn yn golygu y gallwch fyw mewn neuadd ar gampws Prifysgol Aberystwyth trwy gydol yr amser y byddwch yn y brifysgol (8 wythnos), cael defnyddio'r holl adnoddau (Undeb y Myfyrwyr, Llyfrgell, aelodaeth Blatinwm o'r Gampfa am ddim), a dod i adnabod y myfyrwyr eraill ar eich cwrs a fydd yn cychwyn ar eu taith addysgu hwythau.

Byddwch yn cael eich dysgu a'ch mentora gan ymarferwyr â phrofiad, gwybodaeth a sgiliau helaeth i'w cyflwyno i chi yn ystod eich blwyddyn ffurfiannol fel myfyrwyr ymarfer dysgu.

Rydym mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws canolbarth a gogledd Cymru. Ewch i'n tudalen benodol i ganfod mwy am y partneriaid posibl y gallech fod yn cydweithredu â nhw yn ystod eich blwyddyn hyfforddi athrawon. Mae ein partneriaid hefyd yn ein cynorthwyo â'r cyfweliadau, felly byddwch yn cwrdd ag un o'n partneriaid yn ystod eich cyfweliad TAR.

Os nad oes gennych radd B TGAU mewn Mathemateg, Cymraeg neu Saesneg, gallwch sefyll prawf Cyfwerthedd yn y Brifysgol. Os oes gennych radd D neu is mewn Gwyddoniaeth ar hyn o bryd, byddwn hefyd yn cynnig cyfle ichi sefyll papur cyfwerthedd yn y pwnc hwn.

Yn rhan o'r drefn ymgeisio, gofynnir i bob ymgeisydd sefyll profion mynediad fydd yn cynnwys Rhifedd, Llythrennedd (Saesneg) a phrawf Llythrennedd Cymraeg (ar gyfer y rhai fydd yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig). Ceir rhagor o wybodaeth am y Profion Mynediad ar y dudalen benodol.

Prifysgol Aberystwyth yw'r unig brifysgol yng Nghymru i'w henwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd ei Dysgu ddwywaith yn olynol gan Ganllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times. Mae'r brifysgol hefyd wedi ei henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghrymru ar gyfer 2020, ac yn diweddar y brifysgol orau yn y DU am ansawdd ei dysgu a phrofiad myfyrwyr (Canllaw Prifysgolion Da, The Times a'r Sunday Times 2021).

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ennill Gwobr Aur am Astudiaethau Uwchraddedig yng Ngwobrau Dewis Myfyrwyr What University 2019.

# Addysg Gychwynnol i Athrawon (TAR)

## Cynradd

Cynradd (3 -11) (TAR, 1 blwyddyn) t.6

## Uwch

Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys t.8
Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys t.8
Cymraeg t.10
Daearyddiaeth t.10
Drama t.11
Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys t.11
Hanes t.13
Ieithoedd Modern t.13
Mathemateg t.14
Saesneg t.14



# Cynradd (3-11 oed)

## TAR (Cynradd)

Bwriad y cwrs TAR cynradd yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i ddod yn athrawon llwyddiannus sydd yn gallu ennyn diddordeb pob dysgwr ac arwain dysgu ar draws yr ystod oedran cynradd.

Gan weithio ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad, byddwch yn gweithio gydag ymarferwyr medrus a phrofiadol i ddysgu sut mae addysgu dysgwyr uchelgeisiol, medrus a hyderus sy’n wybodus a hyderus am y byd y tu hwnt i’r ysgol. Mae hwn yn gwrs arloesol a fydd yn rhoi dealltwriaeth gyfoethog i chi o ddilyniant disgyblion i gyfnodau nesaf eu haddysg wrth i chi ymwneud â phrofiadau penodol mewn cyfnodau eraill o addysg.

Ar y cyd â’ch cyd-athrawon dan hyfforddiant sy’n dilyn y cwrs cynradd a chyrsiau uwchradd eraill, byddwch yn astudio egwyddorion addysgeg effeithiol, asesu, cynllunio gwersi a chynllunio cwricwlwm. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn dysgu, cyfrannu at seminarau, cyflwyniadau ac yn rhoi ystyriaeth feirniadol i ymchwil. Yn ystod y cyfnodau yn y Brifysgol, byddwch yn cynllunio ac yn cyflwyno micro-wersi er mwyn paratoi at elfen ymarferol y cwrs. Byddwch yn astudio holl ystod y cwricwlwm cynradd gyda chyfle i ganolbwyntio ar feysydd a chyfnodau arbenigol naill ai yn y Cyfnod Sylfaen neu’r Cynradd Uwch. Byddwch hefyd yn cwblhau project ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy’n hyddysg mewn ymchwil.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion cynradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol uwchradd gydag athrawon cynradd sydd â sgiliau arbennig.

## Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DHL

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)





13
14
15
16
17
18
19
20
103
Ball
3+3=6
10+10=20
100+100=200
ABCDEFGHI
JKLMNOP
STUVWXYZ

# Bioleg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Bioleg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Fioleg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Bioleg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Bioleg yn rhan o'r TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Bioleg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DGQ

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Cemeg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Cemeg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Gemeg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Cemeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Cemeg yn rhan o'r TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Cemeg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd sydd â sgiliau arbennig. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DGS

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)



# Cymraeg

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Cymraeg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu cymell dysgwyr i ymateb yn feirniadol ac yn greadigol i iaith a llenyddiaeth. Y nod yw meithrin disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus mewn amrywiol gyweiriau, yn ddarllenwyr brwd ac yn ysgrifennwyr hyderus a fydd yn gallu mynegi eu hunain yn glir a chroyw.

Byddwch yn astudio cwricwlwm y Gymraeg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Dysgu a Chyfathrebu. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Bydd y cwrs yn canolbwyntio ar ddysgu'r Gymraeg i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau Cymraeg TGAU ac UG/Safon Uwch yn y Gymraeg (iaith gyntaf) neu Cymraeg Ail Iaith.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DHH
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Daearyddiaeth

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Daearyddiaeth yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn ymarferwyr egnïol, creadigol, a brwdfrydig er mwyn cymell dysgwyr i fod yn awyddus i ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd.

Mae'r cwrs TAR Daearyddiaeth yn ymwneud â dulliau damcaniaethol ac ymarferol o ddysgu Daearyddiaeth i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys TGAU ac UG/Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys astudio amrediad o strategaethau dysgu ac addysgu mewn amrywiaeth o'r sefyllfaoedd dosbarth rydych yn debygol o ddod ar eu traws. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH4
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Drama

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Drama yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau dysgwyr i'w galluogi i archwilio, ymateb a chreu.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Drama o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol, a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu sesiynau ymarferol, dyfeisgar ac yn seiliedig ar destunau i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Drama a'r Celfyddydau Perfformio.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DGY
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Ffiseg gyda Gwyddoniaeth Gytbwys

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Ffiseg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr o Ffiseg, a'i ddefnydd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Ffiseg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Ffiseg yn rhan o TGAU sengl a dwbl ac UG/Safon Uwch Ffiseg. Mae pob myfyriwr yn derbyn hyfforddiant i ddysgu Gwyddoniaeth Gytbwys i ddisgyblion CA3.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DGW
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)



# Hanes

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Hanes yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn ymarferwyr egnïol, creadigol, a brwdfrydig er mwyn cymell dysgwyr i fod yn awyddus i ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd.

Mae'r cwrs TAR Hanes yn ymwneud â dulliau damcaniaethol ac ymarferol o ddysgu Hanes i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys TGAU ac UG/Safon Uwch. Mae hyn yn cynnwys astudio amrediad o strategaethau dysgu ac addysgu mewn amrywiaeth o'r sefyllfaoedd dosbarth rydych yn debygol o ddod ar eu traws. Trwy gydweithio â myfyrwyr mewn meysydd pynciol eraill ar draws y cwricwlwm, byddwch yn datblygu dealltwriaeth fanwl o bryd a ble mae gweithgareddau arbennig yn addas er mwyn sicrhau dysgu effeithiol.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** 3DH6
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Ieithoedd Modern

## (Ffrangeg/Sbaeneg)

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Ieithoedd Modern yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu meistrolaeth dysgwyr i ddefnyddio'r iaith dramor maent yn ei hastudio. Gallwch astudio un neu ddwy iaith yn ystod eich cwrs Addysg Gychwynnol Athrawon (TAR).

Ym Mhartneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Aberystwyth, byddwch yn cael eich hyfforddi i addysgu eich iaith dramor fodern eich hun, neu gyfuniad o ieithoedd hyd yn oed. Bydd y cwrs yn cynnwys methodoleg addysgu iaith wedi'i chymhwyso i'ch arbenigedd, er enghraifft Ffrangeg a/neu Sbaeneg, Sbaeneg a/neu Ffrangeg.

Trwy weithio ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, byddwch yn hyfforddi i addysgu pobl ifanc i ddod yn bobl greadigol, uchelgeisiol, egwyddorol a hyderus wrth ddarganfod mwy am y gymdeithas a'r byd ac yn arbennig y wlad y maent yn ei hastudio. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Ieithoedd Modern i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU Ffrangeg neu Sbaeneg ac UG/Safon Uwch Ieithoedd Modern.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

- **Math o radd:** TAR
- **Cod y cwrs:** Ffrangeg 3DHB, Sbaeneg 3DHG
- **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Mathemateg

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Mathemateg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu datblygu sgiliau dysgwyr, a'u hyder mewn mathemateg a rhifedd.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Fathemateg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu Mathemateg i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys y manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Mathemateg. Mae gan y Grŵp Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Statws Rhagoriaeth ar ôl ennill y 'Mathematics Tribal Award'. Mae'r grŵp hefyd wedi ei gymeradwyo gan ERW ar gyfer statws ysgol arfer gorau wrth addysgu mathemateg a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae pob ysgol yn brofiadol wrth gynnal athrawon dan hyfforddiant.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau project ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DH8

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

# Saesneg

## TAR (Uwchradd)

Bwriad y cwrs Saesneg yw eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau proffesiynol y bydd eu hangen arnoch i fod yn athrawon llwyddiannus sy'n gallu cymell dysgwyr i ymateb yn feirniadol ac yn greadigol i iaith a llenyddiaeth.

Byddwch yn astudio'r cwricwlwm Saesneg o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Dysgu a Chyfathrebu a byddwch yn cydweithio gyda myfyrwyr o feysydd pynciol eraill i ddatblygu eich arferion tra'n gweithio ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn canolbwyntio ar ddysgu iaith a llenyddiaeth i holl ystod oed uwchradd, gan gynnwys manylebau TGAU ac UG/Safon Uwch Saesneg Iaith a Llenyddiaeth.

Yn ogystal â lleoliadau arbenigol mewn ysgolion uwchradd, cewch brofiad o leoliad byr mewn ysgol gynradd gydag athrawon cynradd medrus. Byddwch hefyd yn cwblhau prosiect ymchwil gweithredol er mwyn datblygu elfen ar eich ymarfer a chychwyn eich gyrfa fel athro/athrawes sy'n hyddysg mewn ymchwil.

### Ffeithiau allweddol

**Math o radd:** TAR

**Cod y cwrs:** 3DH2

**Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)



# Cwrdd â'n Partneriaid



# Ysgol Uwchradd Crughywel

Mae Ysgol Uwchradd Crughywel yn ysgol gyfun gwbl gynhwysol sydd wedi ei lleoli ym Mharc Cenedlaethol hardd ac ysbrydolgar Bannau Brycheiniog, yn nhref hyfryd Crucywel.

Cydnabyddir bod yr ysgol yn cyrraedd amcanion uchel gyda dysgu ac addysgu o safon uchel, ac yn ymddangos yn rheolaidd ymhlith y pum cant o ysgolion sydd ar y brig yn y Deyrnas Unedig. Mae canran uchel o'r disgyblion yn cyrraedd Trothwy Lefel Dau yn rheolaidd (o leiaf pum gradd A* - C TGAU neu gyfatebol) erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4 ac mae'r disgyblion yn mynd ymlaen i sicrhau canlyniadau rhagorol ar ôl 16. Nodwyd mewn Arolwg diweddar gan Estyn: 'Yn Ysgol Uwchradd Crucywel ceir diwylliant o uchelgais uchel y dylai pob disgybl gyflawni 'rhagoriaeth drwy ymdrech'. Gwna'r ysgol yn siŵr bod disgyblion yn cael cymorth i gyflawni drwy'r gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol iawn y mae'n eu darparu. Caiff hyn fuddion cadarnhaol iawn ar ymddygiad, lles ac agweddau ei disgyblion. Mae uwch arweinwyr a llywodraethwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod staff a disgyblion yn deall gweledigaeth, gwerthoedd a blaenoriaethau'r ysgol yn dda. Mae'r Tîm Arwain yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac mae ganddynt gynlluniau clir ar waith i wneud gwelliannau pellach'.

Cynigiwn ystod eang o gyfleoedd cwricwlwm i'n holl ddisgyblion, wedi'u dysgu gan dîm arbenigol o staff arbennig o gymwys ac ymroddedig. Gweithiwn yn galed i adnabod a chefnogi anghenion dysgu unigol pob disgybl ac rydym yn credu na fydd yr un disgybl yn gadael Ysgol Uwchradd Crucywel heb ystod o gymwysterau da. Mae dewis cyfoethog o gyfleoedd allgyrsiol yn darparu agwedd bwysig iawn ar ethos yr ysgol.

Cynigiwn hefyd ystod o gyrsiau galwedigaethol yn cynnwys peth darpariaeth coleg rhan-amser. Yn ogystal â hyn, mae llawer o ddisgyblion yn mynychu sesiynau gyda'r hwyr ar ôl ysgol er mwyn cael cyfle i astudio ystod eang o ddewisiadau chwaraeon, academaidd a chreadigol.

# Ysgol Bro Gwaun

Mae Ysgol Bro Gwaun yn ysgol uwchradd 11-16 cyfrwng Saesneg, gyda defnydd helaeth o'r Gymraeg. Mae'n ysgol sy'n cynnig rhai pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae'r ysgol ar safle hardd sy'n edrych dros Harbwr Abergwaun, yn erbyn cefndir o fynyddoedd y Preselau. Ar hyn o bryd, mae 534 o ddisgyblion ar y gofrestr.

Mae'r disgyblion o sbectrwm eang cymdeithasol a diwylliannol, sy'n rhoi awyrgylch bywiog i'r ysgol. Mae'r ardal yn gymysgedd o ieithoedd cymhleth - y Fro Gymreig ym mynyddoedd y Preseli, Trefdraeth, Y Strwmbl ac yn enwedig Cwm Gwaun, ac mae'r ardal wedi cadw llawer o'i hiaith a'i diwylliant Cymreig. O ganlyniad, defnyddir Cymraeg a Saesneg yn helaeth ledled yr ysgol. Ers canrifoedd mae Bae Abergwaun wedi bod yn bwynt mynediad i Brydain o Iwerddon; mae llawer o deuluoedd Gwyddelig wedi ymgartrefi yn yr ardal leol, sy'n rhoi cymysgedd unigryw o ddiwylliannau yn yr ardal.

# Ysgol Gymunedol Plascrug

Ym Mhlascrug, byddwn yn sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu yn yr ysgol hon, sy'n rhoi'r plant yng nghanol ein cymuned. Credwn fod gan bob plentyn botensial i wneud cynnydd rhagorol trwy ddatblygu sgiliau gydol oes mewn amgylchedd dwyieithog sy'n ddiogel, yn ofalgar ac yn ysbrydolgar. Rhown y cyfle gorau posibl i bob plentyn lwyddo, a dathlu gyda nhw bob cam o'r ffordd.

Ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac sydd wedi ei lleoli yn nhref arfordirol, braf Aberystwyth, Ceredigion, yw Ysgol Gynradd Gymunedol Plascrug. Ceir tua 400 o ddisgyblion rhwng 3 a 11 oed yn yr ysgol. Rhennir y dosbarthiadau yn grwpiau Blwyddyn gyda dosbarthiadau cyfochrog o allu cymysg yn rhedeg drwy'r ysgol ac mae maint y dosbarthiadau yn amrywio rhwng 20 a 30. Mae plant 3 oed y dosbarthiadau Meithrin yn mynychu'n rhan amser (bore neu brynhawn), gan fynychu'n amser llawn ar ôl cyrraedd 4 oed. Bydd disgyblion yn mynychu'r dosbarthiadau Derbyn prif ffrwd yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed.

Mae cymuned yr ysgol yn gosmopolitan; daw tua chwarter y disgyblion o wledydd tramor. Cynrychiolir tua 38 o wledydd i gyd a siaredir 27 o wahanol ieithoedd yn yr ysgol. Ymfalchïwn yn amrywiaeth y diwylliannau a'r crefyddau a welir yn yr ysgol ac yn y cytgord a'r cyfeillgarwch sy'n datblygu ymhlith ein plant.

# Ysgol Bro Teifi

Mae Ysgol Bro Teifi yn ysgol ddwyieithog ar gyfer disgyblion 3-19 oed sy'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Agorwyd yr ysgol fel Ysgol Bro Teifi ym mis Medi 2016 yn dilyn cyfuno Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi gydag ysgolion cynradd Aberbanc, Pontsian, Coedybryn a Llandysul. Hon ydy'r ysgol gydol oed cyfrwng-Cymraeg gyntaf i'w hadeiladu yng Nghymru yn dilyn buddsoddiad o £29.5m gan Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnig cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Ar hyn o bryd, mae 917 o ddisgyblion yn yr ysgol gyda 380 o oedran cynradd a 537 o oedran uwchradd, gyda 98 o'r rhain yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymunedau Llandysul a'r fro.

# Ysgol Uwchradd Y Trallwng

Ysgol gyfun gymysg ar gyfer disgyblion 11-18 oed ym Mhowys yw Ysgol Uwchradd Y Trallwng. Mae 900 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys 160 yn y chweched dosbarth.  Rydym yn gymuned ddysgu ofalgar a chadarnhaol, sy'n anelu at helpu pob disgybl i lwyddo. Anogir pob disgybl i anelu'n uchel a gweithio'n galed er mwyn gwireddu ei uchelgais a'i botensial. Caiff hyn ei adlewyrchu yn arwyddair yr ysgol:

Codi Cyrhaeddiad Trwy Godi Disgwyliadau

Credwn ein bod yn meithrin gwerthoedd ac arferion sy'n galluogi disgyblion i fod yn hunanddisgybledig ac i ganolbwyntio ar ddysgu. Dymunwn i'n disgyblion anelu'n uchel, meithrin annibyniaeth fel dysgwyr, a gallu cydweithio'n bwrpasol â chyd-ddisgyblion ac oedolion yn unigol ac fel rhan o dîm. O ran cefnogi'r datblygiad hwn, ystyriwn bartneriaeth gadarnhaol rhwng y cartref a'r ysgol yn hanfodol. Rydym hefyd yn gymuned ddysgu sy'n benderfynol o ddarparu'r profiadau dysgu gorau i'n disgyblion. Rydym yn ymateb i'r her o baratoi ein disgyblion ar gyfer anghenion byd sy'n newid, ac rydym yn drwyadl wrth ddatblygu cwricwlwm a dulliau dysgu ac addysgu i ddiwallu'r anghenion hyn.  Gwnawn ein gorau i gynnig cefnogaeth a chyfleoedd i ddisgyblion o bob gallu drwy ein cwricwlwm, rhaglenni bugeiliol ac ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol.

# Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Ysgol Gymraeg Aberystwyth yw'r ysgol Gymraeg benodedig gyntaf yng Nghymru a sefydlwyd yn 1939 gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Saith o blant oedd yn yr ysgol yn y dyddiau cynnar ond bellach mae'r ysgol wedi tyfu i dros bedwar cant o ddisgyblion.

Daw'r disgyblion atom o dref Aberystwyth ac o'r ardaloedd gwledig cyfagos. Tyfodd yr ysgol yn gyson yn ystod yr wythdegau a'r nawdegau wrth i fwy a mwy o rieni weld gwerth mewn addysg Gymraeg. Mae yna gynnydd sylweddol yn y nifer o rieni di-gymraeg sy'n anfon eu plant i'r ysgol wrth iddynt weld manteision dwyieithrwydd.



# Cyngor Sir Ceredigion

Mae Awdurdod Lleol Ceredigion yn cynnal 36 o ysgolion cynradd. Mae tua 25% o ysgolion cynradd yr Awdurdod â 50 neu lai o blant. Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn, Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Ar lefel uwchradd, mae'r Awdurdod yn hyrwyddo 4 ysgol gyfun sy'n amrywio o ran maint o 550 i 1200 o ddisgyblion. Mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal un ysgol 3-16 a dwy ysgol 3-19 sydd yn darparu addysg i ddisgyblion o dair oed i un deg chwech ac un deg naw oed. Mae tua 9,500 o blant yn mynychu ysgolion yr Awdurdod.

Mae gan yr Awdurdod amrywiaeth eang o ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysg arbennig, gan gynnwys unedau ymddygiad a chanolfannau adnoddau arbenigol, sydd ynghlwm wrth ysgolion y brif ffrwd mewn rhai achosion. Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn, mae nifer o staff arbenigol yn cynorthwyo i sicrhau bod plant ag anghenion arbennig yn cael eu haddysgu, lle bynnag y bo'n bosibl, mewn ysgolion y brif ffrwd.

Yng Ngheredigion, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu lle addysg gynnar rhan amser (10 awr yr wythnos) ar gyfer pob plentyn 3 oed (adnabyddir hefyd fel Meithrin Cyfnod Sylfaen). Mae lleoedd ar gael mewn unedau meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgolion, cylchoedd chwarae neu feithrinfeydd dydd a gofrestrwyd am gyllid gyda'r Awdurdod. Mae'r cyllid am 2 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos (gall rhai sefydliadau gwirfoddol gynnig sesiynau 2 awr dros 4 diwrnod). Mae ar gael ar gyfer y tri thymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Sail Gwasanaeth Ysgolion Ceredigion yw'r athroniaeth o gynnig cyfleoedd dysgu gydol oes i bob aelod o'r gymuned. Mewn cydweithrediad â'n partneriaid rydym yn ceisio darparu gweithgareddau ieuenctid, addysg oedolion, sgiliau sylfaenol i oedolion, cyfleoedd i ddysgu'r iaith Gymraeg, hyfforddiant a nifer o brosiectau datblygu cymunedol. Rydym yn credu bod y cyfleoedd hyn yn cyfrannu at ddatblygiad yr unigolyn ac at lunio cymdeithas gynhwysol mewn Ceredigion ddwyieithog.

Mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn cyflogi tua 1,600 o bobl, a dyma wasanaeth fwyaf yr Awdurdod Lleol gyda chyllideb flynyddol o £63 miliwn ym 2019/2020.






SIOP-SGUBOR-CAFÉ

# Llety

Bydd pob myfyriwr sy'n astudio Addysg Gychwynnol i Athrawon ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cael llety am ddim.

Bydd Llety'r Brifysgol ar gael i bob myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon am yr 8 wythnos y disgwylir i'r myfyrwyr fod ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Mae'r 8 wythnos yn hanfodol i'ch hyfforddiant a'ch datblygiad cyn ichi fynd i'ch ysgol ddewisedig i ddatblygu eich sgiliau dysgu.

Dyma'r llety fydd ar gael yn y Brifysgol:

- Hunanarlwyo, ond os yw'n well gennych fwyta prydau wedi'u coginio, mae digon o ddewis ar y campws yn un o'r bwytai niferus
- Aelodaeth Blatinwm am ddim o'r gampfa a fydd yn rhoi mynediad i'r gampfa, dosbarthiadau a'r pwll nofio
- Mynediad i Lyfrgell y Brifysgol ac adnoddau eraill sy'n cynnwys Canolfan y Celfyddydau, Undeb y Myfyrwyr, o enwi ambell un yn unig.

Trwy ddewis Addysg Gychwynnol i Athrawon yn Aberystwyth, fe wnawn ni gymryd y pwysau oddi arnoch a sicrhau bod eich amser gyda ni cyn esmwythed ac mor ymarferol â phosib.





# Profion Llythrennedd a Rhifedd

Yn rhan o drefn gyfweld Prifysgol Aberystwyth, disgwylir i bob ymgeisydd sefyll y profion canlynol:



- Prawf llythrennedd (Saesneg: Ysgrifennu a Deall)
- Prawf llythrennedd (Cymraeg – i ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg yn unig)
- Rhifedd

Bydd ymgeiswyr yn sefyll y profion llythrennedd a rhifedd yn ystod y cyfweliad. Ceir gwybodaeth gyflawn am y drefn gyfweld ar ein gwefan.

## Prawf Cyfwerthedd TGAU

Bydd ymgeiswyr TGAU nad ydynt yn bodloni'r gofynion ar gyfer TGAU Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn cael cynnig cyfle i gymryd prawf cyfwerthedd. Lluniwyd y profion hyn i fodloni gofynion gradd TGAU er mwyn cael mynediad i gyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon Prifysgol Aberystwyth yn unig.

Dyma sut mae'r broses yn gweithio:

- Gwnewch gais drwy UCAS yn y dull arferol, gan sicrhau eich bod yn ticio'r blwch 'Equivalence test applied for'.
- Os yw eich cais yn bodloni gofynion eraill y cwrs, cewch eich gwahodd i gyfweliad.
- Os yw eich cyfweliad yn foddhaol, cewch gynnig cyfle i gymryd y prawf/profion cywerthedd angenrheidiol fel amod o'ch cynnig.
- I fod yn gymwys i wneud yr arholiadau, mae'n rhaid i chi fod wedi ymateb neu'n bwriadu ymateb gyda 'Cadarn'.
- Cynhelir y profion ym Mhrifysgol Aberystwyth ac anfonir manylion am y dyddiad, papur sampl a rhagor o gyfarwyddiadau.
- Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr nodi a ydynt eisiau sefyll y profion Mathemateg a Saesneg yn Gymraeg neu Saesneg.
- Caiff ymgeiswyr ail-sefyll y prawf unwaith yn ystod y flwyddyn y maent yn ymgeisio ynddi.



# Cwestiynau Cyffredin

### A fyddaf yn gallu trefnu fy lleoliadau ysgol fy hun?

Mae'r ysgolion yn y Bartneriaeth yn datblygu ac yn dysgu'r rhaglenni mewn cydweithrediad â'r Brifysgol ac yn deall y gofynion ar gyfer cyrraedd Statws Athro Cymwysedig. O ganlyniad, ni allwch drefnu eich lleoliad ysgol eich hun ond byddwn yn gwneud hyn ar eich rhan.

### A fyddwn yn cael fy rhoi mewn ysgol y bûm ynddi o'r blaen?

Na, ni fyddem fel arfer yn eich rhoi mewn ysgol y mae gennych gysylltiadau â hi, yn cynnwys ysgolion y buoch yn astudio ynddynt, neu'n gwneud profiad gwaith neu ysgolion y mae aelod o'r teulu yn gweithio neu'n astudio ynddi.

### Faint o oriau fydd yn y dosbarth? A allaf weithio'n rhan-amser?

Mae'r cwrs TAR yn rhaglen astudiaethau proffesiynol ddwys iawn. Yn y brifysgol, gallwch ddisgwyl fod mewn dosbarthiadau rhwng 9yb a 5yp, o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Yn ystod eich cyfnodau profiad addysgu proffesiynol, disgwylir ichi fod yn yr ysgol yn ystod yr oriau ysgol. Efallai y gofynnir ichi hefyd gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, megis nosweithiau rhieni a chyfarfodydd staff. Oherwydd yr oriau gwaith hir a'r amser sy'n cael ei argymell ar gyfer paratoi a adfyfyrio, fe'ch cynghorir i beidio â gweithio mewn mannau eraill ar yr un pryd.



# Ymchwil yr Ysgol Addysg

Mae ymchwil yr Ysgol Addysg yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

### 1. Ymchwil mewn addysgu, dysgu ac addysgeg:

- Sut mae dysgwyr yn dysgu
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o bynciau
- TGCh a dysgu
- Athrawon a dysgu proffesiynol
- Datblygu'r cwricwlwm
- Asesu ar gyfer dysgu
- Addysg ddwyieithog.

### 2. Astudiaethau Plentyndod:

- Sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu
- Astudiaethau rhywedd
- Caffael iaith a datblygu iaith
- Iechyd a llesiant
- Ysgolion iach
- Anghenion dysgu ychwanegol.

### 3. Polisi Addysgol:

- Partneriaeth a chydweithredu mewn addysg
- Addysg wledig
- Datblygu'r gweithlu mewn addysg
- Arweinyddiaeth mewn addysg
- Addysg gymunedol
- Polisi addysg cenedlaethol a lleol a'r effaith ar ysgolion bach.




M
D
S




# Sut i wneud cais

Llywodraeth Cymru sy'n pennu nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (TAR) yn yr Ysgol Addysg bob blwyddyn. O ganlyniad, gall y nifer amrywio a gall fod cystadleuaeth frwd amdanynt. Fe'ch cynghorir yn gryf i wneud cais yn gynnar er mwyn sicrhau'r cyfle gorau am le.

Dylech wneud cais am eich rhaglen TAR ar-lein trwy borth hyfforddiant athrawon UCAS. Mae'r drefn ymgeisio yn dechrau rhwng canol a diwedd Hydref (Cyfnod Ymgeisio 1) bob blwyddyn. Yn ystod Cyfnod Ymgeisio 1 gallwch wneud cais am hyd at 3 gwahanol gwrs/darparwr. Bydd Cyfnod Ymgeisio 1 yn cau ym mis Ionawr fel arfer (er gall rhai darparwyr gau cyn hynny) a dyna pryd y cewch gyfle i wneud cais trwy 'Gyfnod Ymgeisio 2'. Yn ystod 'Cyfnod Ymgeisio 2', ni chewch wneud cais am fwy nag un cwrs/darparwr ar y tro.

Wrth i chi baratoi eich cais, cofiwch y canlynol:

- Cymerwch amser dros y cais a pheidiwch â rhuthro. Gan eich bod yn gwneud cais i fod yn athro/athrawes, mae'n bwysig sicrhau bod pob dim yn cael ei gwblhau'n gywir. Gallwch gadw eich gwaith wrth ichi fynd trwy'r ffurflen gais a dychwelyd ato unrhyw bryd.
- Cysylltwch â'ch canolwyr ymlaen llaw er mwyn iddynt gael cyfle i baratoi geirda – ni all UCAS anfon eich cais atom tan iddynt dderbyn pob geirda.
- Yn eich datganiad personol, ceisiwch ddangos eich ymrwymiad i fod yn athro/athrawes; eich brwdfrydedd am eich pwnc, a'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth am addysg trwy unrhyw brofiad a gawsoch mewn ystafell ddosbarth.
- Mae rhai cyrsiau, yn enwedig TAR Cynradd yn boblogaidd iawn a gellir llenwi'r llefydd yn gyflym – yn aml yn ystod ffenestr Cyfnod Ymgeisio 1. Fe'ch cynghorwn, felly i wneud cais cyn gynted â phosibl.
- Ar ôl ichi gyflwyno eich cais, bydd y broses yn symud yn gyflym. Rhaid i bob darparwr ymateb gyda phenderfyniad o fewn 40 diwrnod gwaith ac os cynigir lle i chi cewch ddeg diwrnod gwaith i ystyried y cynnig a dod i benderfyniad.
- Yna fe'ch gwahoddir i gyfweliad lle gofynnir ichi sefyll prawf byr ar lythrennedd a rhifedd a chael cyfweliad personol. Mae diwrnod y cyfweliad yn gyfle hefyd i gwrdd â thiwtoriaid, gweld y mannau addysgu, a dysgu mwy am y rhaglen. Yn yr Ysgol Addysg, rydym yn cynnal ein cyfweliadau gyda'r ysgolion partner, a fydd yn gyfle da i chi gwrdd â'ch darpar fentoriaid.




Ysgol Addysg
Prifysgol Aberystwyth
Penbryn 5
Campws Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UX

+44 (0)1970 621 537

add-ed@aber.ac.uk

/EducationAtAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2021.